**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/0502/18

Russell George AC
Cadeirydd
PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU

13 Chwefror 2018

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2018 ynghylch Adroddiad Blynyddol cyntaf Comisiynydd Traffig Cymru yn benodol ar gyfer Cymru, a'i ymddangosiad cyntaf o flaen Pwyllgor yr Economi, Seilwiath a Sgiliau ar 28 Tachwedd.

Rwy'n croesawu adroddiad blynyddol cyntaf y Comisiynydd sydd wedi codi nifer o faterion pwysig, ac roeddwn yn falch o gyfarfod a thrafod yr adroddiad hwn yn fanylach gyda'r Comisiynydd ar 23 Tachwedd.

Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiynydd am ei berthynas weithio agos ac effeithiol gyda swyddogion, ac am sicrhau fod ei arbenigedd ar gael i helpu gyda gwaith Llywodraeth Cymru. Mae penodi Comisiynydd Traffig cyntaf, llawn amser i Gymru wedi creu adnodd sy'n ddigonol i alluogi'r Comisiynydd i gael rhagor o drafodaethau gyda'r sector cludiant ar y ffyrdd a'r sector bysiau, yn ogystal â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y dulliau hyn o drafnidiaeth.

Rydych wedi codi nifer o faterion yn eich llythyr yr wyf am geisio mynd i'r afael â hwy isod.

**Y posibilrwydd o ddulliau mwy effeithiol ac effeithlon o gofrestru bysiau yng Nghymru**

Bydd y cyfrifoldeb dros gofrestru gwasanaethau bysiau lleol yn dod yn fater i Weinidogion Cymru, wedi cychwyn Deddf Cymru 2017, sydd i ddod yn ddiweddarach yn y Gwanwyn.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau newydd datganoledig a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru 2017, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried diwygiadau i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol. Cafodd ein cynigion amlinellol cychwynnol eu cyhoeddi yn dilyn yr Uwchgynhadledd Bysiau Cymru gyntaf a gynhaliwyd yn Wrecsam ym mis Ionawr 2017, ac rwy'n disgwyl gallu cyflwyno cynigion manwl ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn dechrau'r gwanwyn, neu ddechrau'r haf.

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, byddaf yn gweithio gyda Comisiynydd Traffig Cymru, y sector bysiau ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer cofrestru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwasanaethau bysiau lleol yn cael eu gwella, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i deithwyr gystal â phosib.

Fel y Comisiynydd Traffig, rwy'n credu y bydd defnyddio technoleg newydd yn well yn ei gwneud yn haws i rannu gwybodaeth am wasanaethau bysiau lleol sydd wedi'u cofrestru'n fasnachol. Rwyf hefyd yn credu ei fod yn bwysig, wrth gofrestru gwasanaethau bysiau lleol, bod ymarferoldeb y gwasanaeth arfaethedig yn cael ei ystyried, yr effaith ar y diwydiant bysiau lleol a safonau'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i deithwyr mewn cymunedau lleol.

**Cydweithio gwell rhwng tacsis a cherbydau hurio preifat**
Yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2017, y mae disgwyl iddi gael ei chychwyn eleni, bydd trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn dod o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf. Ar y sail honno y bu imi ymgynghori y llynedd ar sut y gellid diwygio a gwella y broses o drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yma yng Nghymru.

Mae'r crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru wedi ei gyhoeddi. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen yma:
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/170612-taxi-consultation-cy.pdf

Bydd cynigion manwl yn cael eu datblygu bellach gan swyddogion ar y ffordd orau o ddiwygio'r drefn drwyddedu i fodloni anghenion cludiant pobl Cymru, cwmnïau a gyrwyr proffesiynol yng Nghymru. Mae disgwyl y bydd y cynigion manwl hyn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwedd y Gwanwyn/ ddechrau'r haf.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y ffordd orau i'r Comisiynydd Traffig gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig o fewn y cyfyngiadau sy'n weddill fel rhan o'r setliad datganoledig newydd. Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd swyddogaethau y Comisiynydd Traffig, ar wahân i gofrestru gwasanaethau bysiau lleol, yn parhau yn fater sy'n cael ei neilltuo i Lywodraeth y DU.

**Gwneud Comisiynydd Traffig Cymru yn gorff apelio a chreu corff Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ledled Cymru.**
Mewn egwyddor, mae manteision i edrych ar y cyfleoedd sydd bellach yn bosibl drwy i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i ddarparu Comisiynydd Traffig penodol i Gymru.

Gallai swyddogaeth well o ran apeliadau trafnidiaeth a gwasanaethau datgelu a gwahardd fod yn ffordd ddefnyddiol o ehangu swyddogaethau Comisiynydd Traffig Cymru. Dylid nodi, fodd bynnag, y byddai unrhyw ehangu ffurfiol ar swyddogaethau y Comisiynydd Traffig yn galw am gydsyniad Llywodraeth y DU.

**Gwneud cyfradd y taliadau BSSG yn amodol ar wiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gyrwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus**
Mewn egwyddor, rwy'n cytuno y dylai gyrwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus dderbyn gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel amod o'u cyflogi i ddarparu gwasanaethau bysiau rheolaidd lleol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda gyrwyr proffesiynol sy'n darparu trafnidiaeth benodol ar gyfer dysgwyr.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgynghori â rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol i edrych ymhellach ar effaith bosibl y cynnig hwn ar y sector bysiau yng Nghymru. Ein dyletswydd gyntaf yw diogelwch teithwyr.

**Cyflwyno safonau gwasanaeth i sicrhau nad yw cwmnïau cerbydau gwasanaeth cyhoeddus o dan anfantais yn ariannol oherwydd ad-dalu arian megis tocynnau teithio rhatach yn hwyr.**
Mae gan awdurdodau lleol eu targedau eu hunain eisoes ar gyfer ad-dalu cwmnïau bysiau am gludo deiliaid cardiau teithio am ddim. Rydym wedi gofyn i bob awdurdod lleol ddatblygu amserlen gyffredin ac i sicrhau bod honno ar gael i bob cwmni teithio.

**Adolygu'r meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau gan awdurdodau lleol**
Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol gadarnhau eu gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau bysiau gyda'r nod o hidlo'r rhain i un gyfres o feini prawf, gyda proses dendro a dogfennau cyffredin ledled Cymru. Gobeithir y gallai hyn, ar yr amod y bydd pob awdurdod yn ei ganiatáu, yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2020.

**BSSG i bwysleisio mwy ar ansawdd**
Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol fynnu y safonau gofynnol, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, os ydynt yn dymuno dyfarnu unrhyw BSSG i gwmnïau bysiau. Mae'n bosib y bydd cwmnïau sydd yn cyrraedd safonau ansawdd gwell yn derbyn mwy o arian.

Bydd argymhellion y Comisiynydd, sy'n ymddangos fel enghreifftiau yn ei adroddiad, yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r safonau ansawdd gofynnol gan gwmnïau, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymwys am BSSG.

**A fyddai'n bosibl i gwmnïau ddefnyddio darllenwyr cardiau electronig i fonitro'r defnydd o gardiau teithio rhatach i leihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau a thwyll?**
Mae defnyddio Peiriannau Tocynnau Electronig sy'n bodloni meini prawf gofynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer cofnodi teithiau gyda thocyn teithio rhatach wedi bod yn ofyniad craidd o fewn Safonau Ansawdd Gwirfoddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bysiau Cymru ers eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

Rydym wedi neilltuo cyllid yn 17/18 i ddarparu peiriannau cerdyn clyfar newydd i gwmnïau yr effeithiwyd arnynt. Bydd hyn yn sicrhau bod cwmnïau yn parhau i gofnodi cardiau electronig yn unol â'n prosesau ad-dalu a gwrth-dwyll.

**Gellid creu un sefydliad ar gyfer cyflwyno trwyddedau trafnidiaeth gymunedol, gyda Chomisiynydd Traffig Cymru yn delio gydag apeliadau**
Mae'r cynnig sy'n cael ei gynnig gan Gomisiynydd Traffig Cymru yn ymddangos yn ddull synhwyrol a chymesur o gyflwyno trwyddedau trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru. Mae'r drefn o gyflwyno trwydded Trafnidiaeth Gymunedol yn fater sydd heb ei ddatganoli a bydd yn parhau i fod yn fater i Lywodraeth y DU yn dilyn cychwyn Deddf Cymru 2017 yn ddiweddarach eleni.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y drefn Trwydded Trafnidiaeth Gymunedol, a disgwylir i hwn ddechrau yn y Gwanwyn. Cynhelir trafodaethau gyda'r sefydliadau perthnasol yng Nghymru er mwyn cyflwyno cynigion i fabwysiadu system sy'n bodloni anghenion y Sector Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru.

**Pa mor briodol yw caniatáu i Gerbydau Nwyddau Trwm ddefnyddio lonydd bysiau mewn rhai achosion ble y gallai fod yn ffordd effeithiol o wella llif y traffig.**
Caiff hyn ei adolygu yn ystod 2018-19, gan gynnwys goblygiadau posibl o ran diogelwch, trwy drafodaethau gyda chyrff sy'n gyfrifol am y priffyrdd, y Comisiynydd Traffig a sefydliadau ffyrdd a chludiant, a chaiff y casgliadau eu cyhoeddi erbyn Ebrill 2019.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cydbwysedd rhwng BSSG a thocynnau teithio rhatach a chynnal a datblygu gwasanaethau bws yng Nghymru.**

Mae cyllid Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol ar gyfer ad-dalu cwmnïau bysiau am gludo deiliaid cardiau teithio, ac i gynnal y rhwydwaith bysiau, yn bodloni amcanion hollol annibynnol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eu prosesau o ad-dalu cwmnïau bysiau yn bodloni y rhwymedigaeth deddfwriaethol sydd ganddynt, na ddylai'r cwmnïau hynny elwa na gwneud colled o ganlyniad i hynny. Nid oes tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn ad-dalu cwmnïau bysiau yn groes i'w rhwymedigaethau.

O gymharu, mae taliadau awdurdodau lleol i gwmnïau bysiau o dan gynllun BSSG o blaid cadw'r rhwydwaith bysiau.

**Trefniadau caniatáu Trafnidiaeth Gymunedol ar hyn o bryd ac yn dilyn cychwyn Deddf Cymru 2017.**
Mae'r drefn ar gyfer trafnidiaeth gymunedol yn fater sydd heb ei ddatganoli ac rwy'n deall y bydd y cyfrifoldeb yn parhau i fod yn fater ar gyfer Llywodraeth y DU unwaith y bydd y darpariaethau o fewn Deddf Cymru 2017 yn cychwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Adnoddau Comisiynydd Traffig Cymru**
Mae Comisiynydd Traffig Cymru wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ac mae'n atebol iddo. Nid yw, ac ni fydd ei staff presennol a'r tri aelod o staff dwyieithog yr ydym wedi cytuno i'w hariannu yn gyflogeion Llywodraeth Cymru. Golyga hyn bod yn rhaid i'w gyflogwyr ef a'u cyflogwyr hwy fod yn fodlon bod eu safle yn addas.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru ar y cychwyn i swyddfa'r Comisiynydd roi amcangyfrif o'r gost o adnewyddu'r safle a arferai fod yn safle Defnyddwyr Bysiau Cymru, ac a ddefnyddiwyd ganddo. Roedd eu hamcangyfrif yn chwe ffigur, a ystyriwyd yn rhy uchel.

Yna trefnwyd i'r Comisiynydd Traffig edrych ar nifer o safleoedd masnachol eraill. Nid oedd yr un ohonynt yn dderbyniol. Yn fwy diweddar, edrychodd y Comisiynydd ar nifer o safleoedd posibl eraill, a gofynnwyd i'w swyddfa asesu pa mor addas oeddent.

Rydym wedi edrych ar ba safleoedd sydd ar gael yn fewnol o fewn ystâd eiddo Llywodraeth Cymru, ac yn fasnachol. Gwelwyd bod modd i staff cymorth y Comisiynydd gael lle o fewn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno, ac mae ei swyddfa wedi eu hysbysu o hyn.

**Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn Saesneg yn unig ar y cychwyn**
Mae fy swyddogion wedi egluro i'r Comisiynydd Traffig y byddem yn talu costau cyfieithu ei adroddiad blynyddol i'r Gymraeg.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi ein barn ichi ar y materion a godwyd gennych ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio'n agos â'r Comisiynydd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r rhwydweithiau cludo nwyddau ar y ffordd a'r rhwydweithiau bysiau yn y dyfodol.

Yr Cymru,
Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport